# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir**
**Llandrindod**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 19 Hydref 2017**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

13/10/2017

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir.
(Tudalennau 1 - 56)

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CWESTIYNAU GAN AELODAU O'R CYHOEDD |
|---|---|

5.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Tai a Chefn Gwlad oddi wrth Linda Savage**

A all yr Aelod Portffolio fy sicrhau i a thenantiaid Rhandiroedd y Drenewydd nad yw ein safle rhandiroedd yn addas ar gyfer datblygiad tai ac y dylid eu cadw i'w defnyddio fel rhandiroedd yn unig?

(Tudalennau 57 - 58)

5.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Adfywio a Chynllunio**

Yn dilyn penderfyniad rhagweithiol y Cyngor i annog trigolion i ofyn cwestiynau, hoffwn ofyn cwestiwn i'r Cynghorydd Martin Weale (Aelod Portffolio ar faterion Adfywio a Chynllunio).

Mae llawer o drigolion wedi mwynhau ac wedi treulio cryn amser ac egni yn cefnogi'r Cyngor i ddatblygu drafft o Gynllun Datblygu Lleol Powys fel cynllun sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ystyried ceisiadau cynllunio. Er bod y CDLl drafft yn cynnwys digon o ddyraniad tir a chynigion datblygu i ddiwallu anghenion tai rhagamcanol Powys trwy gydol oes y cynllun, mae adolygiad o Geisiadau Cynllunio 'Datblygiadau Mawr' ar dudalennau gwe'r Cyngor yn dangos bod cyfran gymharol uchel o geisiadau cynllunio cyfredol ar draws y sir yn ceisio datblygu safleoedd Maes Glas yn ychwanegol at ddyraniadau tir y CDLl.

Wrth ystyried ceisiadau cynllunio y tu allan i ddatblygiadau arfaethedig y CDLl, nid yw ystyriaeth unigol o safleoedd yn debygol o greu cynllunio strategol effeithiol. Beth yw ymateb strategol y Cyngor wrth barhau i gefnogi cenedlaethau'r dyfodol i sicrhau bod yr etifeddiaeth o ddatblygiadau tai sy'n cael eu caniatau yn parhau i fod yn gadarnhaol ac nad yw'n arwain at or-ddatblygiad anfwriadol o gefn gwlad agored neu i ledaeniad unrhyw gymunedau lleol a allai olygu lleoliad gwael ar gyfer rhai aelodau o'r gymuned gan atal mynediad hawdd at wasanaethau presennol?
(Tudalennau 59 - 60)

| 6. | TRAFODAETH AR WASANAETHAU PLANT |
|---|---|

**Bydd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried yn y prynhawn ar ôl y drafodaeth ar Wasanaethau Plant**

| 7. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 8. | BRIFF Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn briff gan y Prif Weithredwr.

| 9. | TROSGLWYDDIADAU CYFALAF SYDD ANGEN CANIATAD Y CYNGOR |
|---|---|

Ystyried trosglwyddiadau sydd angen eu cymeradwyo gan y Cyngor.

9.1. **Trosglwyddiad ar gyfer Cronfa Wrth Gefn Strategol Halen**

(Tudalennau 61 - 64)

9.2. **Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain**

(Tudalennau 65 - 70)

9.3. **Parc Busnes Abermiwl**

(Tudalennau 71 - 74)

9.4. **Safle Sipsiwn Machynlleth**

(Tudalennau 75 - 78)

9.5. **Ysgol Uwchradd Crughywel**

(Tudalennau 79 - 82)

| 10. | GWERTHUSIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2016 - 17 (CYNLLUN POWYS YN UN A CHYNLLUN GWELLA CORFFORAETHOL CS POWYS) |
|---|---|

Ystyried Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol drafft ar gyfer 2016/17.
(Tudalennau 83 - 164)

| 11. | TREFNIADAU AR GYFER CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS POWYS |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan Gyfreithiwr y Cyngor.
(Tudalennau 165 - 172)

| 12. | PENODIAD I FWRDD ANABLEDD POWYS |
|---|---|

Penodi un aelod i Fwrdd Anabledd Powys. Mae Anabledd Powys yn sefydliad hunan-eirioli sy'n cynrychioli anghenion pobl anabl sy'n byw yn y sir ac sy’n dod i'r sir. Maent yn lobïo ac yn cynorthwyo i ddatblygu gwell gwasanaethau i bobl anabl ac

i wella dealltwriaeth o faterion anabledd ym Mhowys. Mae'r Bwrdd yn cwrdd tua 6 neu 7 gwaith y flwyddyn, fel arfer ar gyfer cyfarfodydd 2 awr o hyd yn Llandrindod.

| 13. | RHYBUDD O GYNNIG - EHANGDER A CHYSYLLTEDD SYMUDOL |
|---|---|

Rhaid inni gael ehangder a chysylltedd symudol yng Nghymru Wledig, mae ei angen arnom i gefnogi ein heconomi a'n cymunedau yn yr unfed ganrif ar hugain.

Felly, mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau ar unwaith i roi newidiadau cynllunio ar waith i alluogi gwell cysylltedd symudol eang fel sail ar gyfer economi fodern a bywiog. Mae hyn i gynnwys, caniatáu mastiau 25m (82 troedfedd) o uchder yng Nghymru yn hytrach na 15m (50 troedfedd) fel y mae ar hyn o bryd, ac yn sgil hynny helpu i ddatblygu economi entrepreneuraidd ym Mhowys a Chymru Wledig.

Cynigydd y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan
Eilydd y Cynghorydd Sir Bryn Davies

| 14. | RHYBUDD O GYNNIG - CAFFAEL Y CYNGOR |
|---|---|

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd menter ac economi gref fel sail ar gyfer hyfywedd ein cymunedau. Oherwydd pwysigrwydd y sector cyhoeddus ym Mhowys o ran cyflogaeth a gwariant yn yr economi leol, rydym yn galw ar y Cyngor i ymrwymo i gynyddu canran ei wariant o fewn y Sir a Chymru. Dylid cynyddu lefelau caffael gan ddarparwyr gwasanaethau ym Mhowys o 28% yn 2015-16 i 40%; ac o ddarparwyr yng Nghymru o 55% i 75%. Byddai hyn yn gyfystyr â buddsoddiad blynyddol o £18 miliwn i economi Powys. Dylai'r Aelod Portffolio ar faterion Economi gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu'r cynnydd a wnaed i ddiwallu'r targedau hyn.

Cynigydd y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan
Eilydd y Cynghorydd Sir Bryn Davies

| 15. | RHYBUDD O GYNNIG - MYND I'R AFAEL Â THLODI TANWYDD |
|---|---|

**Bod y Cyngor yn nodi**

1. Bod biliau ynni aelwydydd yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, tra bod incwm effeithiol aelwydydd yn cadw'r un fath neu'n gostwng.
2. Mae adroddiad diweddar gan moneysupermarket.com wedi dangos bod 5 o'r darparwyr ynni "Big 6" (npower, E.ON, Scottish Power, SSE ac EDF) wedi cyhoeddi cynnydd mewn prisiau ar gyfer y rhai sydd ar brisiau newidiol safonol.
3. Mae 66% o gwsmeriaid ynni ar brisiau newidiol safonol yn ôl Ofgem, gyda'r rhan fwyaf o'r rheiny heb erioed wedi newid cyflenwyr.
4. Y cynnydd pris cyfartalog yn 2017 yw £96.95 gan olygu mai pris y bil ynni blynyddol cyfartalog yw £1258.55.

5. Mae llawer o awdurdodau lleol eraill yn rhedeg cynlluniau newid cyflenwr ynni ar y cyd llwyddiannus.
6. Mae cynllun Cymru-gyfan, Cyd Cymru Wales Together, eisoes yn bodoli (https://cydcymru-collective.com/)
7. Yn yr asesiad Lles a gynhaliwyd gan Bowys, canfu fod 16% o gartrefi mewn tlodi tanwydd - diffiniwyd hyn fel aelwyd sy'n gwario o leiaf 10% o'u hincwm ar danwydd.
8. Canfu adroddiad 2008 fod 34.9% o aelwydydd yng Nghanolbarth Cymru mewn tlodi tanwydd.
9. Nid oes gan dros hanner yr aelwydydd ym Mhowys cysylltiad â'r rhwydwaith nwy, sy'n golygu eu bod yn dibynnu ar olew a thanwydd solet sydd â chost llawer uwch i'r defnyddiwr.
10. Mae Ceredigion yn rhedeg "Clybiau Tanwydd" llwyddiannus, lle mae cymunedau'n prynu olew ar raddfa fawr ar gyfer gwresogi.

**Penderfyniad y Cyngor**

1. Mae'r Cyngor yn credu y dylai
    a. Gwneud cymaint ag y mae'n gallu i helpu trigolion mewn tlodi tanwydd i liniaru'r sefyllfa hon;
    b. Byddai preswylwyr Powys yn elwa'n fawr o filiau ynni llai trwy gynllun ar y cyd sy'n cael ei redeg gan Gyngor Sir Powys ar gyfer newid cyflenwyr ynni;
    c. Gall yr awdurdod ymuno ag awdurdodau a sefydliadau eraill yng Nghymru trwy gynllun Cyd Cymru;
    d. Mae Ceredigion yn rhedeg cynlluniau a fyddai'n gallu darparu modelau arfer gorau ar gyfer rhedeg clybiau tanwydd o'r fath;
    e. Gall yr awdurdod defnyddio ei bŵer o fargeinio ar y cyd ar gyfer cynlluniau deuol i brynu tanwydd ac olew
2. Gofyn i swyddogion ymchwilio i'r posibilrwydd o weithredu ei gynllun ei hun neu ymuno â chynllun Cyd Cymru.
3. Gofyn i swyddogion ymchwilio i'r posibilrwydd o weithredu cynllun prynu olew ar draws Powys.
4. Gweithio gyda chymdeithasau tai lleol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, grwpiau gwirfoddol, cartrefi gofal ac aelwydydd ar draws ledled Powys i gynyddu ymwybyddiaeth a'u hannog i ymuno â'r cynlluniau hyn

Cynigydd: Cynghorydd Sir Huw Williams
Eilydd: Cynghorydd Sir Sarah Williams

| 16. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

16.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Plant gan y Cynghorydd Sir Huw Williams**

Ar hyn o bryd, sawl plentyn mewn angen, plant sydd a'u henwau ar y gofrestr amddiffyn plant, plant sy'n derbyn gofal a rhai sydd wedi gadael gofal sydd wedi'u cofnodi ym Mhowys? Sawl plentyn sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli y tu allan i Bowys?

(I ddilyn)

16.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Plant gan y Cynghorydd Sir Huw Williams**

Mae'r gwaith o fewn Gwasanaethau Plant yn gosod galwadau trwm, dwys, emosiynol ac ar brydiau risg uchel ar staff o fewn Gwasanaethau Plant. Adroddir bod salwch staff wedi bod ar brydiau, rhwng 25% a 50% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n ymddangos bod yna gydberthynas rhwng lefelau salwch a'r galwadau cynyddol ar weithwyr i gefnogi pobl ifanc. Mae gweithiwr cymdeithasol yn cael ei neilltuo ar gyfer pob unigolyn ifanc ac mae'r diffyg dilyniant yn achosi niwed. Pa gymorth sy'n cael ei gynnig i'r aelodau hynny o staff o ran goruchwyliaeth, adnoddau a gwell lefelau staffio, felly y gallant gynnig cymorth cywir a diogel i'n pobl ifanc bregus.

(I ddilyn)

16.3. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Adfywio a Chynlllunio gan y Cynghorydd Sir Roger Williams**

Pa asesiad a wnaed gan y Cyngor o'r Aarhus Confensiwn?

(Tudalennau 173 - 174)

16.4. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Tai a Chefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir Roger Williams**

Sawl cais ar gyfer gwyro llwybrau troed cyhoeddus sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor ar hyn o bryd a sawl un sydd ar gyfer gwyriadau allan o fuarthau fferm gweithiol?

(Tudalennau 175 - 176)

16.5. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Oedolion gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt**

O ystyried adroddiadau sy'n cyrraedd aelodau'r cyngor yn gyson am yr anawsterau mae defnyddwyr gwasanaeth yn y sir yn eu hwynebu yn ceisio cysylltu â'r staff Gofal Cymdeithasol i Oedolion perthnasol, a all yr aelod portffolio darparu dadansoddiad o'r swyddi gwag yn y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fesul ardal ac ar draws y sir?

(Tudalennau 177 - 178)

16.6. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd gan y Cynghorydd Sir David Selby**

A all yr Aelod Portffolio sôn am ba gamau a gymerwyd ganddo i wella gwasanaethau torri glaswellt y Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf?

(Tudalennau 179 - 180)

16.7. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Addysg gan y Cynghorydd Sir Arwel Jones**

A all yr Aelod Portffolio rhoi gwybod i mi nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu ac Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt ym mis Medi 2017 ac hefyd nifer y disgyblion a aeth i mewn i'r ddwy ffrwd ym mis Medi 2017?

(Tudalennau 181 - 182)

16.8. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Tai a Chefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

Pa ystyriaeth a roddwyd gan y Cabinet i effaith y newidiadau gan Lywodraeth Geidwadol y Deyrnad Unedig i'r Lwfans Tai Lleol ar lefelau digartrefedd ym Mhowys?

(Tudalennau 183 - 184)

16.9. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Addysg gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

Pa asesiad a wnaed gan y Cyngor o Adroddiad Ysgolion 2017 Stonewall Cymru?

(Tudalennau 185 - 186)

16.10. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Tai a Chefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir Lucy Roberts**

Mae gennym broblem yn y sir nad oes digon o eiddo 'fforddiadwy' yn cael eu hadeiladu ar gyfer ein pobl ifanc. Rydym yn gwybod bod enillion ym Mhowys yn draddodiadol o isel. Mae gennym hefyd weledigaeth o gadw ein pobl ifanc yn y sir a hyd yn oed denu rhagor o bobl ifanc i symud i mewn. Nid wyf yn credu y bydd hyn yn digwydd tra nad oes gennym dai addas. Mae nifer o bobl ifanc dal efo'r uchelgais o alli brynu eu heiddo eu hunain, ond yn sicr o fewn fy ward i mae'r rhan fwyaf o'r eiddo sy'n cael ei adeiladu yn gartrefi moethus sy'n sicr ddim o fewn cyrraedd y mwyafrif. Rwy'n ymwybodol o gais cynllunio lleol sydd wedi cael ei gyflwyno fel cais 'fforddiadwy' ond fel tŷ ar wahân gyda thair ystafell wely a garej ddwbl a

fydd yn debygol o fynd ar y farchnad am o leiaf £250,000. A oes yna unrhyw beth y gall y Cyngor ei wneud i wella'r sefyllfa?
(Tudalennau 187 - 188)

16.11. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd gan y Cynghorydd Sir Lucy Roberts**

Er fy mod yn deall yn iawn y diffyg cyllid ar gyfer Priffyrdd, a'r angen i flaenoriaethu'r ffyrdd a ddefnyddir amlaf, mae gennyf bryder am ddyfodol tymor hir nifer o'r lonydd di-ddosbarth. Mae maint a phwysau cynyddol peiriannau amaethyddol yn torri asgwrn cefn rhai o'r lonydd hyn ac mae eraill yn colli wyneb y ffordd ac yn dod yn fwyfwy anwastad. Nid dim ond tyllau yn y ffordd ry'n ni'n sôn amdanynt yn y cyd-destun yma. A oes unrhyw gynllun tymor hir ar gyfer cynnal a chadw'r ffyrdd hyn neu a fydd trigolion yn gorfod derbyn y bydd hi'n angenrheidiol cael cerbydau pedair olwyn yn y dyfodol?
(Tudalennau 189 - 190)

16.12. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Jackie Charlton**

Hoffwn ofyn cwestiwn i Rosemarie Harris, yr Arweinydd am Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru 'Gwasanaethau sy'n addas i'r dyfodol' sy'n amlinellu newidiadau i'r ffordd y bydd ansawdd a llywodraethu yn cael eu mesur a'u cyflwyno yn y dyfodol. Mae un o'r cynigion yn ymwneud â 'chyd-gynhyrchu' (ffordd arall o ddweud partneriaethau) yn enwedig rhwng gweithwyr proffesiynol a'r bobl hynny sy'n defnyddio gwahanol wasanaethau.
Elfen o hyn yw dod o hyd i ffordd fwy cydweithredol ac effeithlon o gyflwyno fframwaith gyda gwiriadau a dulliau o gadw cydbwysedd ar gyfer cleifion a chleientiaid o'r ddau faes cyflwyno, iechyd a gofal cymdeithasol.

Y cynnig sydd o ddiddordeb mwyaf i mi fel cynghorydd ac aelod o Gyngor Iechyd Cymunedol Powys yw cael 'corff annibynnol' newydd yn lle'r Cynghorau Iechyd Cymunedol presennol a fydd yn gyfrifol am ddod ag archwilio/rheoleiddio a gwrando ar lais dinasyddion at ei gilydd. Mae Cyngor Iechyd Cymunedol Powys yn ymateb yn annibynnol felly mae'n debygol y bydd y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Powys wedi ymateb hefyd.

Fy nghwestiynnau:-

1. Hoffwn wybod beth mae Cyngor Sir Powys wedi rhoi yn ei ymateb i'r ymgynghoriad hwn a ddaeth i ben ar 29 Medi 2017.
2. Yn ail, mae'r syniad bod archwilio a rheoleiddio yr un fath â gwrando ar lais y dinesydd yn bryder. Nid ydynt yr un fath. Beth yw eich barn chi fel cyn Gadeirydd y Cyngor Iechyd Cymunedol ac fel Arweinydd Cyngor Sir Powys sy'n darparu gofal cymdeithasol ac sy'n anelu at integreiddio gyda Bwrdd Iechyd Lleol Powys yn y dyfodol?

(I ddilyn)

16.13. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Eiddo a Gwastraff gan y Cynghorydd Sir William Powell**

Pa asesiad a wnaed o berthnasedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar bolisiau Cyngor Sir Powys yn ymwneud â rheoli a gwaredu asedau? Yn benodol, a fyddai Aelod y Cabinet yn ystyried adnewyddu dull presennol y Cyngor o weithio, er mwyn cynnwys cynghorau Tref a Chymuned yn fwy ar gam cynharach yn y broses?
Mae lleoliaeth yn ganolog i ddeddfwriaeth newydd Llywodraeth Cymru ac felly, pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am waredu a defnyddio asedau mewn ffordd wahanol, oni fyddai'n gwrtais ac eglur ond hefyd synnwyr cyffredin i ddefnyddio'r wybodaeth ac arbenigedd lleol sydd ar gael yn ein cymunedau.
(Tudalennau 191 - 192)

16.14. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Adnoddau Dynol gan y Cynghorydd Sir Gwilym Williams**

A all yr aelod portffolio rhoi gwybod i mi sawl aelod o staff sydd wedi gadael Cyngor Sir Powys ar draws yr holl adrannau ac sydd wedi mynd i'r bwrdd iechyd gan ein bod nawr yn cydweithio'n agosach? A ellir dangos y ffigur yma ers dechrau'r bartneriaeth gyda'r bwrdd iechyd tua fis Hydref y llynedd?
(Tudalennau 193 - 194)

16.15. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r cabinet wedi cefnogi parcio am ddim mewn meysydd parcio talu ac arddangos ar draws y sir i gefnogi masnachwyr lleol yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig. A fydd y cabinet newydd yn cyflwyno cynllun tebyg eleni?

(Tudalennau 195 - 196)

16.16. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Cyllid gan y Cynghorydd Sir David Jones**

Ar stad dyddynnod Garth y Cyngor Sir yng Nghegidfa mae dau dŷ sydd wedi bod yn segur am gryn amser. Un am dair blynedd a'r llall am ddwy flynedd. Faint mae cronfa treth y cyngor wedi derbyn am y ddau eiddo yma hyd at 30 Medi eleni?
(Tudalennau 197 - 198)

16.17. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Tai a Chefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir David Jones**

Ar stad tyddynnod Garth y Cyngor Sir mae ystod o adeiladau fferm Fictoraidd sydd wedi bod yn segur am gyfnod hir. Dros y blynyddoedd mae'r cyngor sir wedi cyflwyno dau gais cynllunio ar gyfer yr adeiladau hyn ond mae'r ddau wedi cael eu tynnu'n ôl yn weddol hwyr yn y broses. Faint mae'r adran tyddynnod wedi talu am y ddau gais cynllunio, dau gais Adeilad Rhestredig, ffioedd proffesiynol ac amser Swyddog a hynny i gyd yn ofer?

(Tudalennau 199 - 200)